Cenn@d

IONAWR 17 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 151

Cipolwg ar fryniau Khasia a Jaintia

Wnaeth fy ymweliad â Shillong ddechrau mis Tachwedd diwethaf ddim cychwyn fel roeddwn i wedi'i drefnu. Y cynllun oedd hedfan i Delhi, sef taith o naw awr o Lundain, ac wedyn hedfan y bore canlynol, taith ddwy awr hanner i Gauhati yn nhalaith Assam, cyn cael prynhawn hamddenol ar ddiwedd y daith yn Shillong.

Ar ôl cyraedd maes awyr Indira Ghandi yn Delhi, yn ôl y drefn, dros ddwy awr cyn hedfan fe ddaeth y cyhoeddiad y byddai'r daith i Gauhati ryw bedair awr yn hwyr. Roedd hyn yn golygu y byddai'n dechrau nosi cyn cychwyn y daith 106 cilometr i'r bryniau, a diwedd y daith yn nhref Shillong. Mae angen amynedd i deithio yn India!

Pan gyrhaeddwyd libart ysbyty Dr H. Gordon Roberts cyn deg o'r gloch nos Lun, roedd grŵp yno i'n croesawu ni, sef Gareth Roberts, ein mab yng nghyfraith, a minnau. Yn y grŵp roedd cynrychiolwyr o Eglwys Bresbyteraidd Khasia a Jaintia, rhai o fwrdd rheoli'r ysbyty ac aelodau o bwyllgor trefnu'r canmlwyddiant. Cafwyd amlinelliad o raglen lawn y pedwar diwrnod canlynol.

Ein llety fyddai tŷ wedi ei adeiladu yn y dull a elwid yn 'Ewropeaidd' – ystafelloedd eang a phob nenfwd yn uchel iawn, i osgoi effaith yr hafau poeth. Dr Arthur Hughes oedd yng ngofal adeiladu'r byngalo fyddai'n gartref iddo am 30 mlynedd o 1939 tan 1969. Yn ôl yr arfer mewn gwlad cymharol dlawd, byddai merched a elwid yn Kong yn gweini ar westeion. Roedd Kong Real a Kong Lucy wedi bod yn gweini yn ystod fy nhri ymweliad blaenorol ac yn cofio am fy anghenion deietegol!

Collwyd y cyfle i ymweld ag ardaloedd o ddiddordeb yn Shillong a'r cylch. Y bore wedyn, roeddem wedi cael galwad cynnar, ac yn cychwyn ar daith i Jowai am hanner awr wedi saith. Ar ôl awr, roeddem yn dal i fod ynghanol traffig y dref! Mae nifer y ceir ar strydoedd Shillong wedi cynyddu'n aruthrol yn y deng mlynedd diwethaf.

Mae mwy o hanes y diwrnod yn Jowai ac ymweliad wedyn â Sohra (yr hen Cherapungee) i'w adrodd, ond dathliadau ysbyty Shillong oedd pwrpas craidd ein hymweliad.

Dan arweiniad y meddyg H. Gordon Roberts o Lerpwl, fe lwyddwyd i ariannu ac adeiladu'r ysbyty cyntaf yn Shillong yn

Gwlâu newydd yn ward y plant

Safle adeilad newydd y ganrif ger hen eglwys Jaiaw

ardal Jaiaw yn 1922. Yn ystod 2022/23 fe gynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i nodi'r canmlwyddiant, ac roedd angen dathliad arbennig i roi terfyn ar y gweithgareddau hyn. Dewiswyd 3 Tachwedd 2023 ar gyfer y dathliad hwn a gwahoddwyd rhywun yno i gynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Cychwyn yr ymweliad oedd cyfarfod preifat i rannu neges o longyfarch a dymuno llwyddiant i'r ysbyty yn y dyfodol. Llwyddais i wneud hun yn yr iaith Khasi a chael fy llongyfarch. Y gwir ydy fod y Khasiaid mor fanesol, fydddai neb yn meiddio peidio â bod yn fanesol.

Yn y cyfarfod fe gafwyd cyflwyniad gan Mr K. W. Marbaniang gan ddefnyddio lluniau o'i gyfrifiadur. Mor wahanol i ddyddiau fy nhad yn y 1930au pan oedd y *magic lantern* yn fodd cyffrous o gyflwyno neges yn ddeniadol. Roedd cyflwyniad Mr Marbaniang yn amlinellu'r hyder a'r cynlluniau uchelgeisiol sydd ganddynt ar gyfer y dyfodol.

Cafwyd cynlluniau manwl estyniad eang fyddai'n trawsnewid delwedd a chyfleusterau'r ysbyty. Hwn fyddai 'Adeilad y Ganrif' iddynt. Roeddynt yn bwriadu dechrau trwy ddatblygu'r llawr isaf ar dir sydd wedi ei baratoi eisioes, a symud ymlaen efo'r gwaith gan gredu y byddai Duw yn arwain y ffordd.

Maent yn disgwyl arian gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru at y camau cyntaf hyn. Yn gyntaf, bydd adran radioleg yn cynnwys cyfleusterau pelydr-X ac uwchsain, ystafelloedd i dechnegwyr ac ystafell aros i gleifion. Yn ail, bydd derbynfa i gleifion gofrestru a thalu am driniaethau. Ac yn drydydd, bydd adnodd i ymdrin ac i gasglu adroddiadau'n deillio o archwiliadau. Amcangyfrifir y bydd y gwaith yn derbyn £120,000 a roddwyd gan elusen fydd hefyd yn ariannu i'r un raddfa, a hynny yn Misoram a Jowai.

Roedd y cyflwyniad yn gynhwysfawr a diddorol. Mae'r anghenion ariannol yn amlwg iawn ac anghenion y trigolion mewn trefi ac yn arbennig yn y cefn gwlad yn enfawr. Mi wn y bydd rhoddion bach a mawr gan fudiadau ac unigolion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Ar ôl cinio cawsom ein tywys i weld y coleg nyrsio newydd. Wrth i ni ddod i olwg y fynedfa roedd dwy res hir o fyfyrwyr mewn gwisgoedd traddodiadol yno i'n croesawu. Roedd yr adeilad newydd yn ysblennydd yn ei liw gwyn a glas. Yn dilyn cyfraith newydd gan Lywodraeth India, mae'n rhaid i i bob nyrs yn y

(parhad ar y dudalen nesaf)

100.Cymru – diwrnod i arweinwyr yn Llanelwedd
Tudalen 5

O Gefn Gwlad
Blwyddyn Newydd Dda! Wir?
Tudalen 7

Swyddi Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Tudalen 8

Cipolwg ar fryniau Khasia a Jaintia

dyfodol fod wedi ennill gradd. Felly, roedd angen coleg yn hytrach nag ysgol nyrsio.

Rhaid rhoi clod iddynt nid yn unig am beintio ac addurno'r coleg nyrsio newydd ond hefyd am beintio'r hen ysgol nyrsio.

Roedd y coleg nyrsio wedi cael dodrefn newydd, nifer fawr o gyfrifiaduron ac offer arbenigol modern fel y gallai'r myfyrwyr ymarfer cyn mynd i weithio ar y wardiau. Roedd y myfyrwyr hyn yn falch iawn o gael y cyfle i astudio yn y coleg, ac eisoes mae llawer ohonynt wedi enill clod am eu llwyddiant mewn arholiadau allanol.

Ganol y prynhawn daeth pawb ynghyd i ystafell gyfarfod y coleg. Cefais gyfle i annerch y gynulleidfa niferus – roedd tua 200 yn bresennol – a'u llongyfarch am ddewis nyrsio fel gyrfa. Rhan arall o'r cyfarfod oedd dangos fy nghefnogaeth drwy lansio rhifyn newydd o'u cylchgrawn, *Leisia*. Roeddynt wedi cael cyngor mai 'leisia' (ac nid 'lleisiau') oedd y gair Cymraeg am 'voices'!

Wedi hyn, cawsom gyfle i weld pob rhan o'r ysbyty. Roedd angen gwelliant ar un neu ddwy o agweddau. Mae'r gweithdy peirianyddol a chanolfan y gwasanaethau trydanol yn dal i weithredu mewn adeilad o fframwaith pren gan mlwydd oed. Roedd peryglon amlwg pe byddai tân yn cychwyn yno.

Gerllaw roedd y golchdy. Er bod ganddynt un peiriant golchi, roeddynt yn dal i ddefnyddio'r un gwreiddiol ac roedd mangl hen ffasiwn a chypyrddau sychu cyntefig hefyd yn dal i gael eu defnyddio. Delwedd amgueddfa oedd yma – yn ceisio diwallu anghenion golchi ysbyty yn y 21ain ganrif.

Sychu dillad o dan yr hen drefn yn yr olchfa

Ond mae'n rhaid dweud fod pethau wedi gwella yn arw. Mewn naw mlynedd ers i mi ymweld â Shillong, mae datblygiadau sylweddol wedi cael eu cefnogi gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae cyflenwad trydan yr ysbyty yn well; mae pob gwely yn gallu cael cyflenwad o ocsigen pan fydd angen; mae offer i ymladd tan wedi ei osod; mae sawl ward wedi cael gwlâu modern, ac mae rhan helaeth o'r adeilad wedi cael ei beintio a'i addurno yn ddiweddar.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn arwyddocaol. Ar fynedfa'r ysbyty mae'r geiriau: 'Service to man is service to God' ac ar raglen y canmlwyddiant roedd y dyfyniad: 'thus far has the Lord helped us' (1 Samuel 7:12).

Gwyn Angell

Cerddi'r Ysgol Farddol a gyflwynwyd yng Ngwasanaeth Plygain Merched y Wawr, Caerfyrddin

Mae pob un ohonon ni'n hoffi clywed Stori'r Geni. Ond un rhan o Stori'r Geni nad ydyn ni'n hoffi ei chlywed ydy'r darn am Herod yn lladd plant, a Joseff a Mair a'r baban Iesu'n gorfod ffoi i'r Aifft. Mae pobol dros y canrifoedd wedi dyfalu pa ffordd aethon nhw o Fethlehem i'r Aifft. Un ffordd fyddai mynd drwy'r anialwch, ond fyddai hynny ddim yn bosib efo babi mor fach. Mae'n fwy na thebyg mai'r ffordd arall yr aeth y tri, drwy'r darn o dir rydyn ni'n ei nabod heddiw fel Gasa.

Pa straeon glywn ni 'leni a'r Ŵyl yn prysur ddod?
Pa straeon ddaw yn gyfan i greu'r hanes perta'n bod?

Pa straeon glywn ni eto wrth nesu at y crud?
Ai clywed cân angylion yn gôr uwchben y byd?

Ai clywed am fugeiliaid yn eu rhyfeddod syn
A dilyn sêr-ddewiniaid ar daith dros bant a bryn?

Ai stori neis am stabal fydd eto ar ein clyw
Ai hanes cyfareddol am eni mab i Dduw?

Neu 'leni a yw Jiwdea yn cynnig stori drist,
Sy'n profi'n bod ni eto mor bell o neges Crist.

Cans heddiw mae sawl Herod yn dal ar hyd y wlad
Yn lladd y plant diniwed, dileu y fam a'r tad.

Fe glywn ni heno stori, mewn byd sy'n dal i droi,
Am filoedd fel Mair a Joseff o'u cartre'n gorfod ffoi.

Eleni mae miliynau a ŵyr nad seren wen
Sy'n arwain sêr-ddewiniaid yw'r golau ddaw o'r nen.

Pan fyddwn heddiw'n darllen am wlad Jiwdea dlos
A dau yn dod i gerdded yn hir dros waun a rhos,

Yn sŵn yr Ŵyl wahanol, gweddïwn dros y byd
Sydd wedi colli nabod ar y cariad yn y crud.

Tudur Dylan Jones

Llythyr Nadolig 2023

Plis ga' i seren eleni – un â
gwên go iawn, un i'w dodi
yn ôl yn ein hawyr ni'n
y Dwyrain? Yn lle stori.

All ateb gŵr y llety – am unwaith
ddweud: 'der' mewn i g'nesu,
der' mlân, mae'r tân yn tynnu'?
'Se'n dda iawn. Mae'r nos yn ddu.

A ga' i angel yn lle gelyn – un mawr,
un i mam a'i phlentyn, un ddaw
pan 'sai ar ddi-hun,
i'm dala ac i'm dilyn?

A ga' i wŷr doeth sy'n ddoethach – na'n rhai ni,
rhai newydd, addfwynach?
Tan wawr, mewn byd tynerach,
ga' i weld geni babi bach?

Ac wedyn, gaf i godi'r – bore aur
â brawd yma'n gwmni?
Tybed? Yn lle bwledi.
Santa, dyna fynnaf i.

Mererid Hopwood

(*Gyda diolch i* Papur Priordy *am ganiatâd i gynnwys y cerddi hyn*)

Cofio Arthur Bowen Davies – Cymro Americanaidd ac artist blaengar ym maes celf fodern

Mae'r rhifyn cyfredol o'r *Traethodydd* yn un arbennig o liwgar, a'i brif erthygl yn trafod, gyda thoreth o luniau deniadol, fywyd a gwaith yr artist o Gymro Americanaidd Arthur Bowen Davies. M. Wynn Thomas sy'n ein tywys ni trwy ei fywyd, o'i enedigaeth i dad o Gymro Cymraeg yn ninas Utica, Talaith Efrog Newydd, ei hyfforddiant artistig yn Chicago a'i ysbrydoli gan ehangder golygfeydd 'y Gorllewin Gwyllt'. Rhoddir sylw i'w ymweliadau â gwledydd cyfandir Ewrop yn perffeithio'i grefft ac yn chwilio am ysbrydoliaeth, ei ymwrthodiad â realaeth yn narluniau ffasiynol y cyfnod a'i dderbyn maes o law fel un o artistiaid arbrofol mwyaf llwyddiannus ei genhedlaeth. Cysylltir ei enw yn annatod ag 'Arddangosfa'r Arfdy' – *The International Exhibition of Modern Art* – a gynhaliwyd mewn ystordy arfau gwag yn Efrog Newydd yn 1913 ac a gyflwynodd i gynulleidfa or-geidwadol a sychlyd braidd gynnwrf artistiaid Ewropeaidd fel Picasso, Cezanne, Gaugin ac eraill oedd eisoes wedi gwneud eu henw fel peintwyr blaengar ac athrylithgar. Yn ogystal ag adrodd y stori, mae'r darluniau niferus yn erthygl Wynn Thomas yn dangos medrusrwydd hynod Arthur B. Davies a natur ei ddawn. Mae'n gorffen drwy danlinellu ei gysylltiadau Cymreig: 'Er nad anghofiodd Davies Gymru, y gwir yw bod Cymru wedi ei lwyr anghofio ef'. Darllenwch yr erthygl ddifyr a gwybodus hon i wybod amdano ac i sicrhau na fydd yn anhysbys mwyach i ni fel Cymry.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r awdur ifanc Sioned Spencer yn traethu'n llawn ac yn ddiddorol am flynyddoedd cynnar *Y Traethodydd*, cylchgrawn hynaf Cymru, ac yn esbonio'r weledigaeth oedd gan Lewis Edwards, y golygydd cyntaf, ynghylch gwareiddio'i gyd-Gymry a lledu eu gorwelion diwylliannol. Hefyd, ceir gan y golygydd presennol ail ran ei gyfres ar syniadaeth Jürgen Moltmann, y diwinydd o'r Almaen y bu ei gyfrolau pwysig *Diwinyddiaeth Gobaith* ac *Y Duw Croeshoeliedig* mor allweddol yn natblygiad crefyddol y 1970au a'r 1980au.

Yn yr adran adolygiadol, lluniodd Derec Llwyd Morgan werthfawrogiad cynnes o *Penrhaith ein Heniaith Ni*, y gyfrol deyrnged ddiweddar i'w gyfaill a'i gyfoeswr, yr Athro Gruffydd Aled Williams, tra mae Gruffydd Aled Williams yntau'n trin yn olau iawn gynnwys *Gofal ein Gwinllan*, cyfrol sy'n trafod cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'n llên a'n diwylliant. Beirdd y rhifyn yw Derec Llwyd Morgan a Mary Burdett-Jones.

Mae hwn yn rhifyn hynod liwgar a chyfoethog, a bydd y cwbl ohono yn ddiau at ddant ein darllenwyr.

Yn unol â'n harfer, anogwn bawb nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

'Talentau Gobaith' – diweddariad ar apêl Cymorth Cristnogol Undeb Bedyddwyr Cymru

Mae ein hapêl 'Talentau Gobaith' yn parhau eleni! Cyfle yw hwn i hau gwaith hollbwysig yn Zimbabwe, drwy ein partneriaeth gyda Chymorth Cristnogol. Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda sefydliadau lleol yno i gynyddu gwydnwch cymunedau ffermio yn erbyn effeithiau newid hinsawdd.

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod eisioes wedi codi £1,535! Diolch o galon i bawb a roddodd mor hael hyd yn hyn! Cadwch lygad allan yn y misoedd nesaf am fenter gyffrous newydd fydd yn cael ei lansio yn y gwanwyn i'n helpu i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r apêl yn ein heglwysi i gyd.

Cynhadledd Flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru 2024

Dyma rannu dyddiadau cynhadledd flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru ar gyfer 2024. Fe'i cynhelir eleni ar 23–6 Mehefin yn sir Benfro. Thema'r gynhadledd fydd: 'Adeiladaf fy Eglwys'. Bydd mwy o fanylion am ddigwyddiadau a lleoliad yn dilyn maes o law, ond yn y cyfamser – nodwch y dyddiad.

Sefydlu gofalaeth newydd yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau

Daeth gofalaeth eglwysi Annibynnol Pen-y-graig a Rama i ben ym mis Ionawr 2022 gyda marwolaeth y Parch. Meirion Sewell fel Gweinidog rhan-amser. Fel Cadeirydd yr Ofalaeth dechreuais wneud ymholiadau gydag eglwysi Annibynnol yr ardal ar gyrion gorllewinol tref Caerfyrddin ac yn y dref ei hun, a darganfod y potensial i gydweithio i'r dyfodol. Roedd dylanwad y pandemig wedi gadael ei ôl ar ein heglwysi a nifer yr aelodau, a throi ein golygon at y dref a wnaethpwyd er mwyn ceisio creu gofalaeth newydd.

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol o'r ofalaeth newydd o bum eglwys Annibynnol yng Nghapel Smyrna, Llan-gain, ym mis Chwefror 2022. Yn y cyfarfod hwn cytunwyd i wahodd y Tabernacl, eglwys ar gyfer y Bedyddwyr yn y dref, i ymuno â ni. Roedd y Tabernacl mewn gofalaeth gyda dwy eglwys arall, ac erbyn mis Gorffennaf 2022 sefydlwyd gofalaeth newydd o saith eglwys, sef: Bethania, Talog (32 aelod yn 2023), Noddfa, Foelcwan (38), Pen-y-graig (83), Philadelphia (33), Smyrna (46) a'r Tabernacl (123), gyda chyfanswm o 354 o aelodau. Roedd cynrychiolwyr o gapel Rama (24) yn rhan o'r trafodaethau cychwynnol, gan dynnu allan yn ystod haf 2023.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr ofalaeth newydd o saith eglwys yn festri'r Tabernacl ar 11 Gorffennaf 2022. Etholwyd Geraint Roberts yn Gadeirydd, gydag Emyr James yn Ysgrifennydd, gan ffurfioli gwaith yr ofalaeth newydd o'r cychwyn. Cafwyd trafodaethau ar drefn bresennol y gwasanaethau yn sgil effaith cyfnod y pandemig; ystyriwyd modelau costau cynnal gweinidog, patrwm Suliau posibl ar gyfer saith eglwys ac awgrymwyd enwau darpar-weinidogion. Roedd yna naws hyfryd o drafod a chydweithio ymhlith y cynrychiolwyr ac ychydig o gyffro wrth sefydlu gofalaeth gydundebol lle gellir manteisio ar adnoddau, profiad a chefnogaeth undebau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio a lluniwyd hysbysiad gyda'r bwriad o ddenu gweinidog. Cytunwyd wedyn ar drefn o gynnal cyrddau undebol ar draws yr ofalaeth ar batrwm Bethania a Noddfa oedd yn bodoli eisoes ar gyfer 2023 neu 2024. Erbyn hyn, mae pob un o'r eglwysi mewn cylch o gyrddau undebol a fydd yn sail gadarn ar gyfer dyfodol o dan arweiniad gweinidog. Mae'r Tabernacl eisoes yn rhan o batrwm cydaddoli ymhlith eglwysi tref Caerfyrddin.

Erbyn hyn mae'r eglwysi unigol yn trafod modelau ariannol i gyflogi gweinidog sy'n rhoi cymorth i'r eglwysi llai; hefyd rhoddir ystyriaeth i gytuno ar enw i'r ofalaeth newydd. Rydym yn aeddfed erbyn hyn i alw gweinidog ac mae'n gyfnod cyffrous yng nghapeli Cymraeg ardal Caerfyrddin. Gellir cael gwybodaeth bellach drwy gysylltu ag Emyr James (Tabernacl), Ysgrifennydd yr Ofalaeth newydd, ar 07896 242529, neu â Geraint Roberts (Pen-y-graig), Cadeirydd yr Ofalaeth newydd, ar 07814701079.

Taro'r Post

Annwyl Olygydd,

Yn aml iawn, rhywbeth tebyg yw teimladau'r rhan fwyaf ohonom ar ddechrau blwyddyn arall. 'Blwyddyn Newydd Dda' yw cyfarchiad y Cymro bob amser a 'Happy New Year' a ddywed y Sais. Yr un yw'r cynnwys mewn gwirionedd, ond fod y pwyslais yn wahanol gan y naill a'r llall. Os bydd hi'n flwyddyn dda, mi fydd yn un hapus, ac os bydd hi'n un hapus, bydd yn siŵr o fod yn un dda! Dro yn ôl hysbysodd fy mrawd Eifion fi am rywbeth yr oedd y Frenhines Elizabeth yn arfer ei ddysgu i'w phlant: 'When round and about, remember the ABC – Always Be Cheerful'. Ond tipyn o gamp ydi gwneud hynny bob amser!

Pa fath o flwyddyn fydd hi, tybed? Y ffaith amdani ydi na fydd yn wahanol i unrhyw flwyddyn arall o'n gorffennol, p'un a ydi hynny'n ein calonogi ai peidio. Rhesymol a naturiol fyddai hefyd obeithio am well dyfodol mewn sawl cyfeiriad. Cofiwn nad ydi daioni byth yn newid, na chwaith y natur ddynol. Bydd yr un pethau'n digwydd, ac fe wyddom am yr amrywiaeth cymysglyd ym mywyd pawb ohonom. Beth felly fedrwn ni ei wneud? 'Tydi daioni byth yn newid,' meddwn eiliad yn ôl, ond beth am yr efengyl?

Adroddir am athrawes oedd wedi gofyn i'w dosbarth ddysgu'r 23ain Salm ar eu cof ar gyfer cystadleuaeth. Aeth pob un ohonynt ati'n frwydfrydig ar gyfer y gystadleuaeth honno. Dyma'r eiliad fawr yn dod, a dyna Dafydd yn codi ar ei draed yn ansicr ac yn nerfus, a braidd yn ddihyder. Dechreuodd pethau'n dda, 'Yr Arglwydd yw fy Mugail', ond yna daeth y geiriau, '... a dyna'r cwbwl sydd angen i mi wybod!' Doedd ddim angen iddo boeni dim – roedd wedi taro'r hoelen ar ei phen!

Gyfeillion annwyl, ar ddechrau 2024 beth sydd angen I ni ei wybod? Mae rhai'n dweud wrthom fod ein sicrwydd yn y byd technolegol – peidiwch â gwrando arnynt! Credwn heddiw mai'r cwbwl sydd angen i ni ei wybod yw mai 'Yr Arglwydd yw **fy** Mugail; ni bydd eisiau arnaf'. Ydi, mae'n fugail personol i bob un ohonom – cofiwch atgoffa pawb eleni sy'n credu ynddo neu sy'n chwilio am adnewyddiad!

A thrwy gyfrwng *Cenn@d* a'r neges hon, gaf i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i 'nghyfeillion yn y Weinidogaeth a chylch yr eglwysi.

Yn gywir iawn,

Iorwerth P. Jones
Rhuthun

100.Cymru – diwrnod i arweinwyr yn Llanelwedd

Ben Franks yn rhannu ei weledigaeth

Casgliad o ffrindiau yn yr efengyl o Gymru a'r byd, pobl sy'n fodlon ymddiried yn Nuw ar gyfer ton newydd o genhadaeth fydd yn plannu eglwysi ar hyd Cymru dros y degawd nesaf – dyna yw Cant i Gymru. Y weledigaeth fawr a'r her a roddwyd gan Ben a Lois Franks (arweinwyr eglwys Hope Church, Rhondda, a sefydlwyr 100. Cymru) yw: 'Beth sydd angen ei wneud i blannu 100 eglwys iach yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesa?'

Mae 100 i Gymru yn gobeithio gwneud hyn drwy annog symudiad newydd o weddi fel y sylfaen i'r cyfan. Er mwyn gosod y sylfaen yma, mae dyhead i weld Cristnogion ar hyd a lled Cymru a'r byd yn ymroi i 15 munud o weddi yr wythnos dros Gymru. Os yw 2,800 yn ymrwymo i hyn, fe fydd 100 awr o weddi yn cael ei gynnau a'i gynnal bob dydd dros blannu eglwysi a diwygiad yma yng Nghymru. O'r sylfaen yna o weddi, gobeithir ysbrydoli, arfogi, anfon a chefnogi planwyr newydd ar hyd Cymru drwy fod yn barod i weithio efo unrhyw un sy'n caru Iesu, yn caru Cymru ac yn dyheu am weld Teyrnas Nefoedd yn dod yn ei llawnder yma. Mae'n bosib dysgu mwy a chysylltu efo'r tîm ar wefan www.100.Cymru.

Rydw i fel plannwr eglwys newydd yma ym Mlaenau Ffestiniog (Craig Blaenau) a'n tîm bach yn ei hystyried hi'n fraint cael bod yn rhan o 100 i Gymru a chael ein hystyried yn un o'r 100. Trwy 100. Cymru rydym wedi dod o hyd i rwydwaith o Gristnogion ac arweinwyr amrywiol o ran eu cefndir a'u ffyrdd o fod yn eglwys, ond sydd hefyd ar dân dros yr efengyl a Chymru ac yn rhannu'r un nod o gyrraedd gwlad oedd unwaith mor Gristnogol, lle roedd 'bod yn Gymro bron yn gyfystyr â bod yn Gristion'. Ond mae'r Gymru hon bellach yn faes cenhadol unwaith eto, gyda llai na 2% o'r boblogaeth yn ystyried eu hunain fel pobl â pherthynas fyw gyda Iesu, a'r capeli oedd yn llawn yn gorwedd yn wag ac yn adfeilio.

Nid yw arloesi yn beth hawdd, ac mae cael dysgu gan bobl sydd wedi cerdded neu sy'n cerdded yr un daith a thyfu mewn cyfeillgarwch â nhw yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Dyna oedd pwrpas y diwrnod arweinwyr a gynhaliwyd ar gaeau'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, ddydd Gwener, 2 Rhagfyr: dod ag arweinwyr a'u timau ynghyd am fore o anogaeth; cael clywed am y weledigaeth a dechrau'r sgwrs o amgylch y cwestiwn mawr – 'Beth fydd hyn yn ei gymryd?'

Rhannodd Ben y weledigaeth ac ychydig o'i stori bersonol sut y daeth Duw ag ef i'r lle mae o ar hyn o bryd. Gofynnodd i ni roi ein gwahaniaethau o'r neilltu ac uno o gwmpas yr angen a gobaith mawr yr efengyl. Dywedodd fod yr angen mor radical, ac felly fod yn rhaid i'r 'undod' fod yn fwy radical fyth! Nid yw hi'n bosib gwneud hyn ar ein pen ein hunain! Arweiniodd Owen Cottom (arweinydd eglwys Grace Church yn Grangetown a Threganna, Caerdydd, ac un o dîm arwain 100.Cymru) ni mewn sesiwn weddi o eiriolaeth dros Gymru a'i chymunedau. Dilynodd Steff Morris (arweinydd Ffynnon, Llandysul, ac un arall o dîm arwain 100.Cymru) gyda sgwrs bwysig ynghylch beth a olygir wrth 'blannu eglwysi' a pham mae angen ton newydd o eglwysi Cymraeg eu hiaith i gyrraedd y Cymry Cymraeg na fydd yn clywed y newyddion da os nad ydyn nhw'n dod yn iaith eu calon. Roedd hi'n sgwrs emosiynol, a dangoswyd parodrwydd 100 i Gymru i fod yn lle i gael sgyrsiau anodd er mwyn meithrin undod newydd a dwfn.

Gorffennwyd y dydd ar nodyn ymarferol gyda sgwrs gychwynnol am ein rhan ni i gyd. Roedd arweinwyr eglwysi sydd wedi eu sefydlu yn barod a phlanwyr eglwysi yn medru dysgu oddi wrth ei gilydd yn y fan yma, a dechrau codi ein llygaid i weld bod Duw yn medru 'gwneud llawer iawn mwy na dim y bydden ni'n mentro gofyn amdano na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu!' Braf oedd clywed arweinwyr ar eglwysi sydd wedi eu sefydlu – rhai nad oedden nhw erioed wedi meddwl bod plannu eglwys newydd yn bosib – yn rhannu bod eu persbectif yn dechrau newid a'u bod nhw rŵan yn gweld y posibilrwydd o fewn 10 mlynedd i blannu eglwys newydd eu hunain!

Roedd hi'n fraint cael bod yn yr ystafell, ac rydyn ni yma ym Mlaenau Ffestiniog yn gwybod: heb weddi, cefnogaeth, ysbrydoliaeth a chyfeillgarwch yr eglwys ehangach ar hyd Cymru, bod y gwaith newydd yma'n gwbl amhosib. Ond, fel yn arwyddair tîm pêl-droed Cymru – 'Gorau Chwarae, Cyd Chwarae'. Mae ar Gymru angen i ni gydweithio. Wnewch chi ymuno ar y daith?

Nesaf yng nghalendr 100.Cymru fe fydd Diwrnod Gweddi ym Mlaenau Ffestiniog ar 2 Chwefror. Ceir amserlen a manylion y dydd ar y dudalen Eventbrite (https://www.eventbrite.com/.../diwrnod-gweddi-blaenau...) ac mae yna groeso i chi ymuno â ni am sesiwn benodol, y diwrnod cyfan neu'r dathliad nos.

Plis, archeba dy le am ddim i'n helpu ni gyda'r trefniadau. Bydd hi mor braf eich gweld chi yna!

Jos Edwards

Gair Duw ar Waith
gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 17
Gweddïo gydag a thros eraill
Sul, 21 Ionawr

Gweddi
Nefol Dad, diolch am hanes Dorcas a'r modd y bu i Pedr fod yn gyfrwng yn dy law. Agor y testun hwn i ni heddiw fel ein bod yn gweld gobaith yn disodli anobaith a bywyd yn drech na marwolaeth. Amen.

Darlleniad: Actau 9: 36–43
Adfer Dorcas

Cyflwyniad
Bydd hanes rhyfeddol a hyfryd Pedr yn gweddïo gyda chorff marw Dorcas yn hawlio ein sylw wrth feddwl am waith yr eglwys yn gweddïo gydag eraill. Prin fod modd i ni hawlio bod pob deisyfiad o'r fath yn mynd i arwain at yr un canlyniad, ond roedd Luc am gynnwys yr hanes hwn er mwyn dangos bod rhyfeddodau felly yn digwydd yn dilyn gweddi daer. Mae'n siŵr fod yr enghreifftiau o Iesu yn adfer bywyd i'r meirw yn dod i'r cof – merch Jairus, mab y wraig weddw o Nain, a Lasarus. Roedd cyfeillion Dorcas wedi rhestru ei rhinweddau hi, fel pe bai hi'n haeddu adferiad. Nid ei gwaith oedd testun gweddi Pedr, ond ymbil ar yr Arglwydd i drugarhau ac adfer bywyd i'r corff marw.

Nodir nad oedd Pedr wedi gweddïo gyda thystion dynol yn gwrando, ond bod y weddi wedi ei hateb yn gadarnhaol ac iddo gyflwyno Dorcas yn ôl i gwmni ei chyfeillion. Deallwn i'r digwyddiad hwn fod yn fodd i arwain eraill i gredu, a hynny yn Jopa.

Myfyrdod
Pan fyddwn yn ystyried beth y gall eglwys ei wneud mewn modd ymarferol, mae perygl i ni chwilio am gynlluniau a rhaglenni gwaith cymhleth a chostus. Bydd pwyllgorau di-ri, trefnu cynllun hyfforddiant a sicrhau llawer o adnoddau priodol. Yn hanes adfer Dorcas, ni fu cynllunio na darparu adnoddau, mwy na rhannu gweddi yn y fan a'r lle. Mae perygl i'r eglwys heddiw dybied bod angen hyfforddiant i weddïo neu gredu bod gweddïo yn waith i bobl benodol. Weithiau, bydd gweinidog yn cynnig gweddïo gyda pherson, a'r unigolyn yn teimlo'n anghysurus ac yn dewis peidio. Bydd hyn yn fwy gwir os bydd y person hwnnw yn glaf ac yn ofni bod diwedd ei daith ddaearol ar ddod. Mae rhannu gweddi yn fodd o wahodd Duw i mewn i'r sefyllfa a rhannu baich neu ysgafnhau gofid. Nid yng ngeiriad y weddi mae'r wyrth, ond yn yr ymdeimlad sicr fod Duw wrth law ac yn 'gwrando cri'. Gall pob un weddïo ac nid oes sôn fod Duw yn poeni am gywirdeb gramadeg, beth bynnag yr iaith, ond bod y weddi yn ddidwyll ac yn ddealladwy i'r cwmni sy'n gweddïo.

Dyfynnir geiriau Tennyson: 'More things are wrought by prayer than this world dreams of', yn aml, ond ai dyna gred a phrofiad aelodau'r eglwys? Os meddylir am weddïo fel 'sgwrsio â Duw' – yr ymdawelu yn ei bresenoldeb a'r ufuddhau i'w bwrpas – bydd y gwyrthiol yn medru digwydd. Yn hanes Dorcas, roedd ei chorff wedi marw, ond yn hanes pobl eraill efallai y bydd yr ysfa i fyw yn erydu neu fod argyhoeddiad wedi llesgáu. Mae gweddi fel bywhau'r hyn sy'n farwaidd ac adfer yr hyn sydd yn y broses o beidio â bod.

Bythefnos yn ôl, buom yn ystyried gweddïo fel rhan o waith naturiol eglwys, a phob mis Ionawr cynhelir cyfres o gyfarfodydd gweddi sy'n hyrwyddo undeb eglwysig. Pwysleisir nad unffurfiaeth yw undeb. Yn ein gweddïo gyda'n gilydd fel eglwysi, byddwn yn sylweddoli mai un teulu sydd, a theulu defosiynol Iesu yw hwnnw.

Gweddi
Arglwydd pob gweddi, helpa ni i weddïo'n aml a chofio ein bod wastad yn dy gwmni di. Maddau i ni am droi at bopeth arall heb feddwl bod gennym y modd i adfywio a chryfhau drwy dy wahodd di i mewn i'n sefyllfa. Trugarha wrthym, ti sy'n wrandäwr gweddïau, a throi ein nos yn ddydd. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried
1 Beth sy'n debyg ac yn wahanol am fywhau Dorcas ac atgyfodiad Lasarus?

2 Beth fyddai amcan Luc wrth gynnwys hanes bywhau Dorcas yn Llyfr yr Actau?

3 Beth yw grym gweddi i chi?

4 A welwch fudd mewn gweddïo am Undeb Cristnogol, ac a yw'r wythnos yn cael digon o gyhoeddusrwydd a sylw? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng undeb ac unffurfiaeth eglwysi?

5 Eglwysi gwledydd lleiafrifol fydd yn llunio deunydd yr Wythnos Weddi gan amlaf; beth fyddech am i eglwysi Cymru ei nodi, pe byddai gwahoddiad felly yn dod i ni?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 21 Ionawr am 7.30yh – Santes Dwynwen
Ar drothwy Dydd Santes Dwynwen bydd Lisa Gwilym yn dathlu cariad yn ei holl ogoniant, o erddi rhamantus Plas Cadnant ar Ynys Môn. Cawn gyd-ganu rhai o'n hoff emynau a mwynhau perfformiadau hyfryd gan yr unawdydd Steffan Rhys Hughes a'r gantores gospel Nia Price.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 21 Ionawr, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Elin Owen, Bangor.

Oedfa Radio Cymru
Sul, 21 Ionawr, am 12yp
Oedfa dan ofal Gethin Rhys, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru.

O Gefn Gwlad

Blwyddyn Newydd Dda! Wir?

Y mae Tracey Thorn yn un o'm hoff golofnwyr, ac ymson ganddi hi a dyfyniad o gerdd Dylan Thomas ganddi wnaeth imi feddwl yn wahanol eleni am ddyfodiad y Flwyddyn Newydd, cerdd sgrifennwyd ganddo pan oedd yn bedair ar bymtheg mlwydd oed, ac un o'r cerddi ddaeth ag enwogrwydd cynnar iddo – 'The force that through the green fuse'. Ond mwy am hynny yn nes ymlaen.

Mae hi'n flwyddyn newydd, a bu pawb, am wn i – os do, hefyd – yn edrych ymlaen ati ac yn dathlu ei dyfodiad, fel bob amser. Carreg filltir arall ar daith bywyd, medden ni. Cyfle newydd yn dod efo Blwyddyn Newydd, medden ni. Anghofio'r hen waeau ac edrych ymlaen mewn gobaith am well, fe dybiwn. Dal ati a chamu ymlaen, dyna neges y flwyddyn newydd i ni. O fel y carwn ei dyfod, sy fel troi i dudalen wag lân nas difwynwyd gan sgribl neb. Felly, awn ymlaen yn llawen i ddymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i bawb a welwn yn hapus ysgafala.

Ond arhoswch funud! Ac efallai mai fy oed sy'n gwneud imi sgrifennu hyn. Ni fyddwn, mae'n debyg, yn ebychu'r fath eiriau pe bawn yn ddeunaw oed, neu hyd yn oed yn hanner cant a mwy. Ond gan fy mod yn hen …!

Y mae a wnelo blwyddyn newydd, a'i chroesawu hefyd, ag amser. Ac y mae amser yn grëwr ac yn rym yn ein bywydau. A dyna pam y clodforwn ef yn ein dathliadau. Heb amser ni allwn wneud dim, ond gydag amser, yr unig beth sydd gennym, wir, gallwn greu, gallwn fwynhau, gallwn fyw bywyd i'w eithaf. Cawsom geinion llenyddol a chelfyddydol am i lenorion ac artistiaid ddefnyddio'u hamser i greu. Cawsom ddarganfyddiadau syfrdanol gan wyddonwyr, darganfyddiadau sy wedi gwyrdroi bywyd i ni am i bobl glyfar ddefnyddio'u hamser i ymchwilio ac i ddadansoddi. Cawsom brofiadau pen y mynydd yn ein bywyd sawl gwaith, gobeithio, gan fod amser o'n tu. Gallwn fynd ymlaen ac ymlaen, ond dyna ddigon i ddangos mai amser yw prif grëwr ein bodolaeth. Heb amser, heb ddim.

Mae Dylan Thomas wedi dweud hyn yn llawer gwell na fi. Ac mae wedi dweud rhywbeth arall hefyd. Dyma'r dyfyniad:

> The force that through the green fuse drives the flower
> Drives my green age; that blasts the roots of trees
> Is my destroyer …

Ydi, mae amser yn grëwr, prif grëwr ein bywyd a'r greadigaeth yn gyffredinol, ond, gwaetha'r modd, mae o hefyd yn ddinistriwr.

Llun: Iestyn Hughes, atgof.cymru

Ac onid yw Dylan Thomas wedi ei ddweud yn dda? Yr union rym roddodd fywyd i natur, i'r blodyn, i'n bodolaeth ni, yw hefyd ein dinistriwr ni fel pobl. Y mae'n rhaid i fywyd wrth farwolaeth ac fe'i dywedwyd yn y Beibl:

> Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, hwnnw a erys yn unig: eithr os bydd efe marw, efe a ddwg ffrwyth lawer. (Ioan 12:24)

Ac fe ddywedodd Williams Parry rywbeth tebyg yn awdl *Yr Haf*:

> Marw i fyw mae'r haf o hyd.

A hithau'n flwyddyn newydd fe ddathlwn y ffaith fod amser yn rym bywyd, na allwn wneud dim hebddo. Ond arhoswn ennyd i ystyried hefyd mai'r hyn a wnawn wir wrth ddathlu yw dymuno dyfodiad diwedd ein bywyd – *wishing your life away* yn Saesneg, gan fod ynom efallai ar brydiau awydd marw (*death wish*)? Ydi hynny'n wir? Yn sicr, wrth sylweddoli byrder ein camau wrth fynd yn hŷn, yr holl ddiodde y gwyddom amdano o ganlyniad i dreigl amser ar ein bywydau, yr ysbytai a'r cartrefi gofal llawn, cost aruthrol y gwasanaeth iechyd, fe sylweddolwn fod amser hefyd yn ddinistriwr bywyd! Ac yr ydym yn ddigon ffôl i ddathlu ein penblwyddi ein hunain a phen-blwydd y flwyddyn! Neu ydw i, wrth ddatgan hyn, yng ngeiriau teitl y ddrama, yn 'wirion hen'?

Elfyn Pritchard

Croesair Nadolig *Cenn@d*

Croesair Nadolig *Cenn@d*

Diolch i bawb aeth ati i roi cynnig ar groesair Nadolig *Cenn@d* yn ddiweddar. Daeth nifer da o ymdrechion i law, a'r rhelyw wedi llwyddo i gael yr atebion yn hollol gywir. Yr enw cyntaf allan o'r het oedd **Moira Evans, Rhydargaeau, Sir Gaerfyrddin**. Bydd tocyn llyfr ar y ffordd ati yn ystod y dyddiau nesaf hyn. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu

Atebion

Ar draws 7 Gwylia 8 ac Anna 9 flas 10 O gwawria 11 arfbais 12 o Moab 15 gaeth o 17 i furiau 20 chrwydrwn 22 Esra 23 eu geni 24 y llafur

I lawr 1 Gwêl ar 2 Elisabeth 3 Nadolig 4 i alw'r 5 i alw 6 enaid a 13 Mordecai 14 ef yn llyw 16 aur, thus 18 air Duw 19 graig 21 yn eu

Geiriau cudd: GENI IESU GWIW

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Galluogwr Cenhadol (Rhan Amser)

wedi'i leoli yn Rhosllannerchrugog a'r cyffiniau

Mae Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn dymuno penodi Galluogwr Cenhadol, gan alluogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yn yr iaith Gymraeg yn bennaf yn Rhosllannerchrugog a'r cyffiniau.
Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a gweithgar i ymuno â gwaith yr Henaduriaeth fel Galluogwr Cenhadol.

Oriau: 21 awr yr wythnos.
Cytundeb: 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
Cyflog: Band 22–26 ar raddfa cyflog EBC. Gall y band gynyddu hyd at 27–31, yn dibynnu ar lefel y cymwysterau a'r profiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
Lleoliad: Lleolir y swydd hon yn ardal Rhosllannerchrugog ac yn gweithio o gartref.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:
e-bost – Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru
ffôn – 07787 522904 / 02920 627465

Dyddiad Cau: 30 Ebrill, 2024 am 4pm.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Arweinydd i'r Crwys a Swyddog Ymgysylltu, Bugeiliol a Thyfiant

Pwrpas a bwriad y swydd arloesol hon yw cynnig arweiniad, perthnasedd a gweledigaeth newydd i fywyd eglwys ddinesig gan esgor ar gyfleoedd newydd o gael perthynas â'r eglwys honno a'r gymdeithas ehangach. Y nod fydd meithrin y berthynas honno drwy weithio ar lefel gydenwadol a chyda sefydliadau dyngarol ac amgylcheddol eu hanian. Mae gofyn datblygu dulliau o dorri tir newydd er mwyn sicrhau tyfiant yr eglwys o blith yr aelodaeth bresennol ac o blith y rhai nad oes ganddynt brofiad o eglwysi traddodiadol.

Oriau: 35 awr yr wythnos.
Cytundeb: 2 flynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
Cyflog: 22–26 (£25,962–£28,297 pro rata) ar raddfa cyflog EBC *neu'n uwch*, yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad gan gynnwys deilydd ordeiniedig i'r swydd.
Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
Lleoliad: Eglwys y Crwys, Caerdydd, a byddwch yn gweithio o adref. Fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost –neu swyddfa.office@ebcpcw.cymru
ffôn – 02920 627465

Dyddiad Cau: 4pm, 15 Mawrth 2024

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 'Dos a gwna dithau yr un modd'

Ar drothwy'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, cofiwch am yr adnoddau a baratowyd ar gyfer yr wythnos arbennig hon. Dilynwch y ddolen hon i weld yr adnoddau dwyieithog: Adnoddau ar gyfer yr wythnos weddi 2024 (ctbi.org.uk).

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru